# Ymarfer Profion Darllen - Blwyddyn 2-3 Stori Gelert

Yn gyntaf, darllenwch bob darn darllen sydd mewn bocs ar dudalennau 1–3.
Wedyn, trowch yn ôl i'r dudalen hon a dechrau ateb y cwestiynau.

**Amser maith yn ôl mewn castell anferth roedd Tywysog o'r enw Llywelyn yn byw. Roedd wrth ei fodd yn cael mynd i hela. Hoff gi Llywelyn oedd Gelert. Roedd yn gi hela dewr ac yn gwmni a ffrind ffyddlon.**

**Roedd gan Llywelyn faban cariadus ac roedd yn meddwl y byd ohono.**

**Un diwrnod roedd Llywelyn am fynd i hela. Penderfynodd Llywelyn adael Gelert, ei gi annwyl a chall gartref i warchod y baban.**

**Cysgodd y baban bach yn glûd yn y crud. Clywodd Gelert sŵn traed yn cerdded o amgylch yr ystafell. Cododd ei ben a chafodd fraw wrth weld blaidd anferth yn barod i fwyta'r baban! Chwyrnodd y blaidd a Gelert ar ei gilydd am hir gan ddangos eu dannedd. Dechreuodd y ddau ymladd gyda'u holl nerth. Roedd Gelert yn benderfnyol i fod yn gi ffyddlon a gwarchod y baban.**

**Daeth Llywelyn yn ôl wedi iddi nosi. Roedd wedi blino ac eisiau bwyd. Cerddodd yn syth tuag at yr ystafell wely er mwyn cael gweld ei fab.**

**Ond dychrynodd wrth weld yr olygfa o'i flaen! Roedd llanast mawr. Gorweddai'r crud gwag ar ei ochr ar y llawr. Roedd y blancedi wedi eu rhwygo ar hyd y llawr ac wedi eu gorchuddio a gwaed.**

**Safodd Llywelyn yn stond mewn sioc! Edrychodd ar Gelert a sylwodd Llywelyn ar y gwaed dros ei ben a'i bawennau. Meddyliodd Llywelyn mai Gelert oedd wedi gwneud hyn. Yn llawn tristwch gwylltiodd Llywelyn a thynnodd ei gleddyf. Lladdodd y ci.**

**Ond clywodd y Tywysog sŵn cwyno baban yn dod o du ôl i'r crud.**





visit twinkl.cymru

1. Ym mhle oedd y Tywysog, Llywelyn yn byw? Ticiwch 1.

bwthyn bychan ☐

castell anferth ☐

palas anferth ☐

tŷ mawr ☐

2. Sut gi oedd Gelert? Ticiwch **2.**

ffrind diog ☐

ci bywiog ☐

ci hela dewr ☐

ffrind ffyddlon ☐

ci ffyrnig ☐

3. **Dewiswch** a **chopïwch un** gair sy'n golygu fod Gelert yn edrych ar ôl y baban.

______________________________________________

4. Ticiwch cywir neu anghywir bob tro. Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.

| | Cywir | Anghywir |
|---|---|---|
| Roedd Tywysog o'r enw Meichlon yn byw. | | |
| Roedd Llywelyn wrth ei fodd yn cael mynd i hela. | √ | |
| Cysgodd y baban bach yn glûd yn y gwely. | | |
| Chwyrnodd y baban a Gelert ar ei gilydd am hir gan ddangos eu dannedd. | | |

**Symudodd Llywelyn y crud a dod o hyd i'w fab yn fyw! Wrth ei ymyl gorweddai'r blaidd anferth. Sylwodd yn syth fod Gelert wedi lladd y blaidd wrth iddo geisio ymosod ar y baban.**

**Teimlodd Llywelyn yn euog. Claddodd ei gi wrth ymyl yr afon tu allan i'r castell. Mae'r bedd, sef carreg enfawr gydag enw Gelert wedi ei gerfio arno dal yno hyd heddiw.**

**Gellir dod o hyd i'r bedd mewn pentref bach o'r enw 'Bedd Gelert'.**




5. Rhowch y digwyddiadau yn eu trefn o 1–5. Mae un wedi'i wneud yn barod i chi.

| | |
|---|---|
| Teimlodd Llywelyn yn euog. | ☐ |
| Symudodd Llywelyn y crud a dod o hyd i'w fab yn fyw! | 1 |
| Gellir dod o hyd i'r bedd mewn pentref bach o'r enw 'Beddgelert'. | ☐ |
| Claddodd ei gi wrth ymyl yr afon tu allan i'r castell. | ☐ |
| Sylwodd yn syth fod Gelert wedi lladd y blaidd. | ☐ |

6. Roedd stori Gelert mor drist. Tynnwch 3 llinell i egluro beth mae'r canlynol yn ei feddwl.

| | |
|---|---|
| Beddgelert | ble roedd y tywysog yn byw |
| bêdd | pentref bach |
| castell | ble mae'r ci wedi cael ei gladdu |



visit twinkl.cymru

# Atebion

1. castell anferth

2. ci hela dewr
   ffrind ffyddlon

3. gwarchod

4.

| | Cywir | Anghywir |
|---|---|---|
| Roedd Tywysog o'r enw Meichlon yn byw. | | √ |
| Roedd Llywelyn wrth ei fodd yn cael mynd i hela. | √ | |
| Cysgodd y baban bach yn glûd yn y gwely. | | √ |
| Chwyrnodd y baban a Gelert ar ei gilydd am hir gan ddangos eu dannedd. | | √ |

5.

| | |
|---|---|
| Teimlodd Llywelyn yn euog. | 3 |
| Symudodd Llywelyn y crud a dod o hyd i'w fab yn fyw! | 1 |
| Gellir dod o hyd i'r bedd mewn pentref bach o'r enw 'Beddgelert'. | 5 |
| Claddodd ei gi wrth ymyl yr afon tu allan i'r castell. | 4 |
| Sylwodd yn syth fod Gelert wedi lladd y blaidd. | 2 |

6.

| | |
|---|---|
| Beddgelert | ble roedd y tywysog yn byw |
| bêdd | pentref bach |
| castell | ble mae'r ci wedi cael ei gladdu |